



Gwasanaeth Effeithiolrwydd a  
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

Regional School Effectiveness &  
Improvement Service for North Wales

# Bwletin GWE

## Sesiwn gyda'r Athro Mick Waters i drafod Safonau Proffesiynol Newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth i Uwch Arweinwyr

Sut mae hyn yn edrych mewn ysgolion? Cyfle i drafod a rhannu sefyllfaoedd ymarferol. ★NEWYDD★

<b>Dyddiad:</b>	Dydd Iau, 27 Medi 2018
<b>Lleoliad:</b>	Gwesty'r Beaufort Park, Yr Wyddgrug
<b>Amser:</b>	Dechrau 1:30yp

<b>Dyddiad:</b>	Dydd Mercher, 3 Hydref 2018
<b>Lleoliad:</b>	Venue Cymru, Llandudno
<b>Amser:</b>	Dechrau 1:30yp

Bydd yr un sesiwn yn rhedeg ddwywaith ar draws y rhanbarth. I gofrestru eich lle, anfonwch e-bost i sylw [MorganCordiner@gwegogledd.cymru](mailto:MorganCordiner@gwegogledd.cymru) erbyn **20 Medi 2018**.

## Hyfforddiant mis Medi / Hydref:

HYFFORDDIANT	DYDDIAD	LLEOLIAD
Ysgolion sy'n wybodus am drawma [dwyieithog]	18/09/2018 08/11/2018 21/11/2018	Bryn Eirias, Bae Colwyn <b>GOHIRWYD</b> Y Galeri, Caernarfon <b>DYDDIAD NEWYDD</b> Tŷ Menai, Bangor
Sefydlu i Gymorthyddion [Carfan A – Cymraeg a Saesneg] <b>Rhaglen 2 ddiwrnod.</b>	02/10/2018 a 15/01/2019	Glasdir, Llanrwst <b>DYDDIAD NEWYDD</b>
Sefydlu i Gymorthyddion [Carfan B – Cymraeg a Saesneg] <b>Rhaglen 2 ddiwrnod.</b>	11/10/2018 a 22/01/2019	Beaufort Park, Yr Wyddgrug <b>DYDDIAD NEWYDD</b>
SKIP: Gwella ansawdd addysg ar gyfer Datblygiad Corfforol yn y Cyfnod Sylfaen [dwyieithog]	19/09/2018	Parc Eirias, Bae Colwyn
Gweithdy i Ddyfnhau Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Addysgeg y Cyfnod Sylfaen i Athrawon sy'n Newydd i'r Cyfnod Sylfaen [Cymraeg]	24/09/2018	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug
Gweithdy i Ddyfnhau Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Addysgeg y Cyfnod Sylfaen i Athrawon sy'n Newydd i'r Cyfnod Sylfaen [Saesneg]	28/09/2018	Tŷ Menai, Bangor
Gweithdy i Ddyfnhau Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Addysgeg y Cyfnod Sylfaen i Athrawon sy'n Newydd i'r Cyfnod Sylfaen [Saesneg]	25/09/2018 27/09/2018	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug Ysgol Aberconwy, Conwy
Gramadeg ar gyfer Ysgrifennu [Saesneg – Uwchradd]	24/09/2018	Glasdir, Llanrwst
Datblygu Arweinyddiaeth Gwyddoniaeth Uwchradd	25/09/2018	Venue Cymru, Llandudno
Google Classroom [Cymraeg]	02/10/2018 03/10/2018 05/10/2018	Coed y Brenin, Dolgellau Canolfan Fusnes Ynys Môn, Llangefni Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno
Google Classroom [Saesneg]	04/10/2018 18/10/2018 19/10/2018 23/10/2018	Canolfan Catrin Finch, Wrecsam Faenol Fawr, Bodelwyddan Pafiliwn Llangollen GwE, Linden House, Yr Wyddgrug
Datblygu iaith fynegiannol gyfoethog disgyblion ac ysgrifennu estynedig ym mhob maes addysg [Cymraeg]	08/10/2018 09/10/2018 10/10/2018 11/10/2018	Ysgol Glan Morfa, Abergel [YSGOLION CONWY YN UNIG] Parc Menai, Bangor Plas Tan y Bwlch, Maentwrog GwE, Linden House, Yr Wyddgrug
Datblygu iaith fynegiannol gyfoethog disgyblion ac ysgrifennu estynedig ym mhob maes addysg [Saesneg]	03/10/2018 08/10/2018 09/10/2018 15/10/2018	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug Ysgol Awel y Mynydd, Cyffordd Llandudno [YSGOLION CONWY YN UNIG] GwE, Linden House, Yr Wyddgrug OpTIC, Llanelwy
Nurture ABC™ - Aspire, Build and Connect with LEGO [Adeiladu, cysylltu a bod yn uchelgeisiol gyda LEGO]	03/10/2018	GwE, Penrallt, Caernarfon
Cymorthyddion: Cyfathrebu, Timau & Arwain eraill [Cyfrwng Cymraeg a Chyfrwng Saesneg]. <b>Rhaglen 2 ddiwrnod.</b>	04/10/2018 a 25/01/2019	Glasdir, Llanrwst
RhDAG [Carfan 8 – Cyfrwng Cymraeg] Diwrnod cyntaf y rhaglen:	08/10/2018	OpTIC, Llanelwy
RhDAG [Carfan 8 – Cyfrwng Saesneg] Diwrnod cyntaf y rhaglen:	08/10/2018	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug
Prif Strategaethau Addysgu a Dysgu ar gyfer dysgwyr MATH [Saesneg]	08/10/2018 09/10/2018 10/10/2018	Tŷ Menai, Bangor Glasdir, Llanrwst Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug

**\*\*\*GOHIRIWDYD\*\*\*\*\***

**\*\*\*\*\***

## Cynhadledd gan Brifysgol Bangor: Y Gymraeg mewn Addysg a Dwyieithrwydd

★NEWYDD★

14 MEDI A 21 MEDI 2018 – GLASDIR, LLANRWST

Yn anffodus oherwydd rhesymau y tu hwnt i'r rheolaeth, bydd angen aildrefnu dyddiad y ddwy Gynhadledd ar Ddwyieithrwydd: Y Gymraeg mewn Addysg. Byddwn yn rhannu'r dyddiadau newydd cyn gynted ag y bo modd.

## Swyddi gyda GwE

### Cyfieithydd [Dros Dro]

TAN 30/04/2019 [27 AWR YR WYTHNOS]

Cliciwch yma am gopi o'r hysbyseb a'r swydd ddisgrifiad.

**DYDDIAD CAU: 10 O'R GLOCH, DYDD IAU, 20 MEDI 2018**

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Sion Wyn Evans, Rheolwr Busnes [Dros Dro] GwE ar 0300 500 8087 neu e-bost [SionWynEvans@GwEGogledd.Cymru](mailto:SionWynEvans@GwEGogledd.Cymru)

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais, ewch i [www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk) neu cysylltwch ar 01286 679076.

# Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol

## Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth [CPCP] ★NEWYDD★

### NODYN RHYBUDD I YMGEISWYR – CADWCH Y DYDDIAD YN RHYDD

Bydd angen i ymgeiswyr sy'n llwyddo i gael eu cymeradwyo ar gyfer rhaglen asesu CPCP eleni fynychu Diwrnod Datblygu Cenedlaethol yng Ngwesty'r Marriott, Abertawe ar ddydd Mawrth, 6 Tachwedd 2018.

## Llwybr Dysgu Cymorthyddion Dysgu [LLWDC] ★NEWYDD★

Darperir pedair rhaglen ar draws Cymru ar gyfer Cymorthyddion Dysgu. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Bydd y pedair rhaglen yn cynnig cyfleoedd amhrisiadwy i rwydweithio a chydweithio ag ymarferwyr proffesiynol ar draws y rhanbarth.

Gallwch gofrestru ar y rhaglenni trwy G6. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

## MA Astudiaethau Addysg 2018-2019

Mae'r cwrs yn cynnig dau lwybr ar gyfer y rhai sydd am ennill y cymhwyster hwn. Gall myfyrwyr ddewis dilyn rhaglen llawn amser o 15 mis neu ddewis dilyn y rhaglen rhan-amser gan Brifysgol Bangor.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

## Tystysgrif CDI mewn Arweinyddiaeth Gyrfaoedd

Cyfle newydd a chyffrous i 6 o athrawon ymgymryd â'r dystysgrif CDI mewn Arweinyddiaeth Gyrfaoedd. Bydd Gyrfa Cymru yn ariannu'r cymhwyster.

Mae'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwybodaeth, cyngor, cyfarwyddyd ac addysg gyrfaoedd yng Nghymru wedi'i rannu rhwng yr ysgolion a Gyrfa Cymru, ac mae gan y naill a'r llall rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio. Gall ysgolion ddarparu gwybodaeth am yrfaoedd, addysg gyrfaoedd a chynghor cychwynnol, ac mae Gyrfa Cymru yn darparu cyfarwyddyd gyrfaoedd 'allanol' a gwasanaeth cymorth ar gyfer y cwricwlwm, a ariennir gan y Llywodraeth ac a ddarperir gan staff proffesiynol cymwys. Mae Gyrfa Cymru yn ceisio darparu arweinyddiaeth ledled Cymru ar faterion yn ymwneud â gyrfaoedd ac, yn y cyd-destun hwn, mae'n cynnig amrywiaeth o ddatblygiadau a fydd yn gwella'r cymorth a gynigir yn y pen draw i bobl ifanc yng Nghymru.

Mae'r cymhwyster wedi'i dreialu'n llwyddiannus gyda charfan o athrawon o ranbarth ERW, a byddai Gyrfa Cymru bellach yn hoffi ymestyn y cynnig i ranbarth GWE. Am [ragor o wybodaeth](#) neu i gofrestru eich diddordeb, anfonwch e-bost at [Amie.field@gyrfacymru.com](mailto:Amie.field@gyrfacymru.com) neu ffoniwch 02920 84 6799 cyn 21 Medi.

# Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

## Addysgu Ymatebol gyda STEM ★NEWYDD★

### DIGWYDDIAD GAN TECHNIQUEST A STEM LEARNING

Sut allwch chi ddarganfod beth mae disgyblion yn ei wybod a ddim yn ei wybod ac ymateb i hynny, fel bod pob disgybl yn cael ei herio, yn ymgysylltu, yn cael ei ysgogi, yn bwrw iddi ac yn datblygu wrth ddysgu?

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

## Cynhadledd Estyn: Gweithredu'r TGAU a Bagloriaeth Cymru newydd

Dim ond ychydig o amser sydd ar ôl i gofrestru arweinwyr pwnc ar gyfer cynhadledd Estyn ar weithredu'r cymwysterau TGAU a Bagloriaeth Cymru newydd.

Gwnewch yn siŵr nad yw eich ysgol yn colli allan.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

# Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

## Anghenion Dysgu Ychwanegol ★NEWYDD★

### Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol:

Fel rhan o'r rhaglen ddiwygio addysg ehangach, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddiwygio'r gweithdrefnau Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cafodd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr 2017, a daeth yn ddeddf ar 24 Ionawr 2018. Mae GwE yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl awdurdodau lleol a'r arweinydd trawsnewid rhanbarthol er mwyn cefnogi'r rhaglen ddiwygio hon.

### Dangosfwrdd G6:

Er Medi 2018, mae yna fodiwl newydd yn ymddangos ar Dangosfwrdd y G6 er mwyn cefnogi'r daith tuag at Fedi 2020. Bwriad y modiwl ydy cefnogi ysgolion i fod yn barod, gan sicrhau bod bob Ysgol mewn sefyllfa gref er mwyn gweithredu'r ddeddf pan ddaw i rym ar 1 Medi 2020.

Os hoffech fanylion pellach neu gymorth gyda'r modiwl, cysylltwch â [Margaret.davies@sirddinbych.gov.uk](mailto:Margaret.davies@sirddinbych.gov.uk)

### **Eiriolwyr Trawsnewid ADY Clwstwr:**

Fel rhan o'r gwaith trawsnewid, mae bob clwstwr ar draws y Gogledd wedi cael y cyfle i enwebu un eiriolydd trawsnewid ADY clwstwr. Mi fydd y person enwebedig yn rhan greiddiol o gefnogi'r clwstwr i fod yn barod ar gyfer y ddeddf newydd, sy'n cynnwys sicrhau bod ysgolion yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf er mwyn hysbysu a chefnogi rhieni. Edrychwn ymlaen yn fawr at weithio gyda'n heiriolwyr trawsnewid ADY clwstwr yn ystod y deunaw mis nesaf.

### **Prentisiaethau: Canllawiau i Ysgolion ★NEWYDD★**

Mae'n bleser gan Lywodraeth Cymru eich hysbysu bod canllaw Prentisiaethau newydd ar gyfer Ysgolion yn fyw ar eu gwefan.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

### **Canllawiau i Rieni: Cyfnod Sylfaen / Cynradd / Uwchradd**

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau i rieni a gofalwyr plant sydd naill ai yn cael mynediad i'r Cyfnod Sylfaen, yr ysgol Gynradd [diwedd blwyddyn 2] neu sydd ar fin dechrau yn yr ysgol Uwchradd [ar ddiwedd blwyddyn 6].

[Cliciwch yma](#) am gopi o'r canllawiau.

**Cofiwch ddilyn [@GwEGogleddCymru](#) ar Twitter**

**[GwEGogledd.Cymru](http://GwEGogledd.Cymru)**

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

Rydym wedi diweddarau ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi [yma](#). Rydych wedi tansgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdangysgrifio drwy gysylltu â [bwletin@gwegogledd.cymru](mailto:bwletin@gwegogledd.cymru) yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.

